
BRO PEDR



POLISI YMDDYGIAD POSITIF

2025-2026

Ein nodau:

- Datblygu polisi ymddygiad sy'n cael ei gefnogi a'i ddilyn gan gymuned yr ysgol gyfan (rhieni, aelodau staff a disgyblion) yn seiliedig ar ymdeimlad o gymuned a gwerthoedd a rennir;
- Creu awyrgylch teuluol gofalgar lle gall addysgu a dysgu ddigwydd mewn amgylchedd diogel a hapus;
- I ddysgu, drwy gwricwlwm yr ysgol, gwerthoedd ac agweddau yn ogystal â gwybodaeth a sgiliau er mwyn hyrwyddo ymddygiad cyfrifol, annog hunanddisgyblaeth ac annog plant i barchu eu hunain, at bobl eraill ac am eiddo;
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn modelu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol;
- Annog ymddygiad da yn hytrach na chosbi ymddygiad drwg yn unig drwy ddarparu ystod o wobrau i ddisgyblion o bob oed a gallu;
- I wneud yn glir i ddisgyblion y gwahaniaeth rhwng camymddygiad mân a mwy difrifol a'r ystod o sancsiynau a fydd yn dilyn;
- Ymateb yn briodol ac yn effeithiol i ymddygiad gwael ac i drin problemau pan fyddan nhw'n digwydd mewn modd gofalgar a chydymdeimlad yn y gobaith o sicrhau gwelliant mewn ymddygiad;
- Datblygu sgiliau hunan-reoleiddio'r disgyblion, a'u cefnogi wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer ymdrin â dicter, rhwystredigaeth, pryder a phryder, a allai fod wrth wraidd manion ymddygiadol ac i gefnogi disgyblion i ddatblygu strategaethau addasu ymddygiad annibynnol.

Rydym yn gobeithio cyflawni'r nodau hyn drwy:

- Darparu amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel i ddisgyblion a staff weithio ynddo;
- Annog balchder a pharch i'r ysgol ac yn cynnal ei henw da bob amser;
- Hyrwyddo gofal ac ystyriaeth i eraill.

Pwrpas y polisi hwn yw diffinio rheolau ar gyfer ymddygiad a sicrhau trefn yn yr ysgol. Mae'r rheolau yma wedi eu llunio i sicrhau bod Ysgol Bro Pedr yn gymuned hapus a threfnus yn yr ysgol. Mae gosod y rheolau isod yn sicrhau tegwch a chysondeb wrth i reolau'r ysgol weithredu.

Mae'r polisi disgyblaeth hwn yn seiliedig ar ethos o barch a pharch at ei gilydd.

Agweddau disgyblaeth dda, tra yn yr Ysgol

Mae disgwyl i'r disgyblion ymddwyn mewn ffordd sy'n barchus i'r ysgol ac eraill, ac mewn ffordd sy'n cynnal enw da i'r ysgol.

Isod mae rhestr o ddiswyliadau â rheolau ar gyfer disgyblion.

- Byddwch yn gwrtais, yn ystyriol a weithgar;
- Dangoswch ymddygiad da, a thalwch sylw;
- Byddwch ar amser i wersi a mynd i mewn/gadael yr ystafell ddosbarth yn dawel;

- Arhoswch yn eich seddi oni bai bod gofyn i chi symud;
- Byddwch yn barod am wersi, gyda'r offer cywir a gwisgo'r wisg ysgol gywir (yn unol â'r Polisi Gwisg Ysgol);
- Dim Rhedeg o fewn yr adeilad, cerddwch ar y dde, yn y coridorau ac ar y grisiau.
- Arhoswch y tu allan i ystafelloedd dosbarth nes i'r Athro gyrraedd.
- Peidiwch â gweiddi allan - codwch eich llaw i ateb cwestiwn.
- Peidiwch ag ymyrryd ag addysg pobl eraill.
- Peidiwch â siarad o fewn gwersi oni bai bod caniatâd wedi ei roi gan yr athro.
- Parchwch eich gwaith a'ch heiddo chi a phobl eraill, gan gynnwys eiddo'r Ysgol.
- Peidiwch â defnyddio iaith anweddus.
- Sicrhau bod pob ffôn symudol neu ddyfais electroneg yn cael eu diffodd a'u storio'n ddiogel yn eich bag, er mwyn ac nad ydynt yn amharu ar dysgu ac addysgu;
- Adrodd unrhyw gwynion am disgybl arall i aelod o staff fydd yn delio â'r mater.
- Adrodd unrhyw gwynion yn erbyn staff I Mrs Carys Morgan, Pennaeth, neu Mrs Kizzie Garner-Hughes, Arweinydd Lles a Diogelu.
- Peidiwch â defnyddio trais corfforol na dial. Gall digwyddiadau ailadroddus neu ddifrifol arwain at waharddiad.
- Peidiwch â ddefnyddio Vapes, e-sigarets neu ysmygu sigarets.
- Peidiwch â dod â diodydd egni, fel Monster, Red Bull, ac ati, i'r ysgol.
- Peidiwch â dod ag offer a allai fod yn beryglus i'r ysgol, nac unrhyw eitem y gellid ei hystyried yn arf;
- Peidio â meddu, defnyddio na bod o dan ddylanwad sylweddau anghyfreithlon.

Ar y ffordd i'r Ysgol a'r Cartref:

- Byddwch yn ddiogel ac yn barchus wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno (boed ar fws, trafnidiaeth gyhoeddus neu gerdded). Byddwch yn barchus o unrhyw oedolion eraill sy'n gyfrifol amdanoch, ar eich ffordd i ac o'r ysgol.
- Mae rheolau ysgol wrth deithio i'r ysgol ac o'r Ysgol, am drais i eraill, bwlio neu ddefnyddio geiriau anweddus yn cael eu cymryd yr un mor ddifrifol â digwyddiadau o fewn yr ysgol.
- Parchu pobl eraill.
- Rhowch sbwriel yn y bin.
- Dim defnyddio vapes, ysmygu, yfed alcohol.
- Tra'n gwisgo gwisg ysgol, mae'r unigolyn yn cynrychioli'r ysgol ac mae rheolau'r ysgol yn berthnasol i'r unigolyn hwnnw.

Trafnidiaeth Ysgol:

- Angen dangos eich tocyn bws pob tro pan yn defnyddio'r bws Ysgol.
- Angen hefyd sicrhau eich bod yn defnyddio y bws cywir bob tro, yn unig.
- Angen gwisio bregus bob tro, ag eistedd yn eich sedd drwy gydol y siwrne cyfan.
- Rhaid i chi beidio a thynnu sylw'r Gyrrwr wrth yrru, a pheidio byth a cheisio agor y drysau neu'r allanfeydd, oni bai fod argyfwng.
- Peidiwch byth a mynd ar ac oddi ar y bws, nes ei fod wedi stopio.
- Os bydd ymddygiad negyddol yn parhau, efallai na fydd gan yr Ysgol a'r cwmni bysiau unrhyw ddewis, ond ystyried gwaharddiad dros dro neu barhaol, o'r bws.

COFIWCH Y RHEOLAU A FYDD PAWB YN DDIOGEL AR Y BWS!

O fewn gwersu ag o dan oruchwyliaeth aelod o

Gwnewch yn siwr fod unrhyw waith paratoi neu waith cartref yn cael ei wneud hyd eithaf eich gallu, ymlaen llaw.

- Dewch ag unrhyw offer neu ddillad angenrheidiol ar gyfer y wers.
- Cyrraedd y wers yn brydlon, sefyll tu-allan y Dosbarth yn dawel ag yn drefnus.
- Parchu hawliau bob ddisgybl I dderbyn addysg heb unrhyw ymyrraeth.
- Codi llaw I gofyn neu ateb cwestiwn.
- Cymerud rhan yn y wers, drwy gofio rheolau'r Ysgol.

Yn y Ffreutur:

- Sefyll yn synhwyrol yn y ciw.
- Dim bagiau na chotiau yn y Ffreutur.
- Taflu unrhyw sbwriel yn y bin.
- Nid oes hawl mynd ag unrhyw fwyd neu diod (heblaw botel o ddwr) allan o'r Ffreutur.
- Cliriwch eich plateau a sicrhewch fod y bwrdd yn lan cyn gadael.
- Dim gwaeddu a pharchu hawliau eraill o fedru eistedd a bwyta mewn amgylchedd gwar.

Ni chaniateir archebu, neu ddod a bwyd oddi wrth y safle, I'w fwyta yn yr Ysgol/Ffreutur (heblaw tocyn o adref).

Amseroedd Egwyl a Chinio ag ar draws safle'r Ysgol:

- Byddwch yn synhwyrol ag yn ymwybodol o eraill wrth I chi chwarae neu symud o gwmpas safle'r Ysgol.
- Ni chaniateir I chi fod mewn ystafell ddosbarth neu goridor amser egwyl na chinio, oni bai fod gennych ganiatad aelod o staff.
  Os bydd y tywydd yn arw, caniateir I chi fynd I'r ystafell gotiau, y neuadd neu fannau eraill a nodir gan y Pennaeth Blwyddyn / Uwch Dim Arwain. (Gall hyn gynnwys cyfarwyddyd I fynd I'ch ystafell ddosbarth nesaf ar yr amserlen)
- Peidiwch a dringo waliau, ffensys na mynd ar doeon ar y safle, am unrhyw rheswm.

Gadael safle'r Ysgol heb ganiatad:

- Os bydd disgybl yn gadael tir yr Ysgol heb ganiatad, neu'n cuddio lle na ellir ddod o hyd iddynt, bydd staff yn ceisio helpu'r ddisgybl I ddychwelyd I dir yr Ysgol, cyn belled ag y bo modd. Mae hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os na fydd y disgybl yn dychwelyd I'r Ysgol, neu eisioes belter I ffwrdd, bydd ei Rhieni/Gofalwyr yn derbyn galwad o'r Ygsol. Os nad yw'n bosib I gysylltu efo'r Rhieni/Gofalwyr, yna bydd yr Heddlu yn cael ei hysbysu.

Ymweliadau oddi wrth y safle

- Mae mynychu ymweliadau Ysgol/Gwibdeithiau/digwyddiadau Chwaraeon ayb, yn fraint ag yn ffordd I'r Ysgol wobrwyo am ymddygiad cadarnhaol.
  Bydd ymddygiad yn cael eu hystyried wrth benderfynu a yw ymglymiad y disgyblion yn briodol.

- Gall lleoliad unigolyn ar wibdaith gael ei fforfedu os nad yw eu hymddygiad o safon disgwyliedig yr Ysgol, neu os ydynt yn dwyn anfri ar enw da'r Ysgol.

Rheolau'r Dosbarth

Dilyn cyfarwyddiadau bob aelod o Staff ar unwaith.

Cyrraedd ar amser, ag yn barod I weithio, efo'r adnoddau cywir.

Un person yn unig I siarad ar y tro, tra fod pawb arall yn gwrando!

Peidiwch a chyffwrdd ag unrhywun arall, na taflu unrhyw eitemau.

Dim rhegu!

Dim bwyta yn y Dosbarth, gan gynnwys gwm cnoi.

Dim I ddefnyddio ffon symudol / dyfais electronig, heb ganiatad aelod o Staff.

Camau Ymddygiad

Cam		Gweithred	Canlyniad
Dewis	1	Rhybudd	Dim weithred bellach
	2	Ail rhybudd	Pwynt negyddol ar Bromcom.
Cyfle	3	Symud o fewn y Dosbarth	Pwynt negyddol ar Bromcom. Atalfa o fewn y Dosbarth/adran yn ystod amser egwyl.
	4	Symud o fewn yr Adran/Ardal	Cofnod ar Bromcom. Atalfa o fewn yr Adran / Atalfa amser cinio. Pennaeth Blwyddyn yn cysylltu efo'r Rhieni/Gofalwyr I'w hysbysu.
Canlyniad	5	Symud I POD	Aelod o Staff I ffonio Hwb Bugeiliol (Hafan). Disgybl I gyrraedd POD. Cysylltu Rhiant/Gofalwr

Arweiniad Cywiriol I Staff

Mae'r camau isod wedi'u cynllunio I sicrhau cysondeb a thegwrch wrth weithredu rheolau'r Ysgol. Disgwylir I ddisgyblion ddangos parch at eu gwaith ac eraill (disgyblion, staff ac unrhyw ymwelwyr) yn ystod gwersi ac ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod Ysgol. Nid yw'r canllawiau isod yn gynhwysfawr nac yn ymdrin a phob math o gamymddwyn

sy'n digwydd ym mywyd yr Ysgol. Fodd bynnag, maen't yn dangos camau pendant I'w cymrud mewn rhai sefyllfaoedd. Bydd disgwyl I'r Athro sydd yn cyflawni'r camau gweithredu, gymryd y sefyllfa I ystyriaeth. Os bydd disgybl yn torri'r rheolau hyn, disgwylir I Athrawon ddilyn y camau canlynol:

Camau Herio Ymddygiad Negyddol		
Dewis	Cam 1	**Os rydw i'n dewis peidio â chydymffurfio...** Byddaf yn derbyn rhybudd gyda chyfle i addasu fy ymddygiad
	Cam 2	**Os rydw i'n dewis peidio ag addasu fy ymddygiad neu os nid wyf yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu...** Byddaf yn derbyn ail rybudd a bydd cofnod cam 2 yn cael ei nodi ar Bromcom
Cyfle	Cam 3	**Os nid yw fy agwedd / ymddygiad yn caniatáu i mi a/neu eraill i ddysgu...** Byddaf yn gorfod symud o fewn yr ystafell ddosbarth ac yn derbyn atalfa egwyl am 10 munud.
	Cam 4	**Os ydy fy agwedd / ymddygiad yn parhau i amharu ar ddysgu pobl eraill...** Byddaf yn cael fy nhynnu o'r dosbarth a fy osod gydag aelod arall o staff yr adran / ardal.

Canlyniad Cam 5	**Os ydy fy agwedd / ymddygiad yn arwain at alwad argyfwng…** Byddaf yn cael fy nhywys i POD, fy eithrio o'r wers, gall hyn arwain at gyfnod hirach yn POD. Bydd yna sgwrs â fy rhieni / gofalwyr.

Camau Gweithredu 'Dewis'
Cam 1: Delio efo'r ymddygiad negyddol o fewn y Dosbarth = rhybudd
Strategaeth: • Esbonio'r camymddwyn I'r disgybl ag esbonio sut y ddylai ymddwyn.

Cam 2: Ail Rhybudd
Strategaeth: • Esbonio'r camymddwyn I'r disgybl ag esbonio sut y ddylai ymddwyn. Os fod y sefyllfa yn parhau, ag fod y disgybl ddim yn ymateb yn briodol i'r rhybudd cyntaf, yna fydd angen symud ymlaen I cam 2. Fydd hwn yn ail rhybudd. Fydd angen I'r Athro rhoi'r disgybl yn atalfa dros amser egwyl.

Camau Gweithredu Cyfle
Cam 3: Disgybl I'w symud o fewn y Dosbarth
Strategaeth: • Symud y disgbl I weithio efo disgyblion eraill. • Symud y disgbl I weithio mewn ardal arall o'r ystafell, heb gwmni eraill ag I weithio'n annibynnol. • Ni ddylsai disgybl gael ei ddanfon allan I sefyll tu-allan I'r Dosbarth fel cosb am unrhyw rheswm. • Cofnodi'r digwyddiad ar Bromcom. • Hysbysu'r Pennaeth Blwyddyn am y digwyddiad.

Cam 4: Disgybl l'w symud o fewn yr adran/ardal

Os fod yr ymddygiad yn parhau, ag fod y disgybl ddim yn cydymffurfio efo'r rheolau, fydd angen symud y disgybl o fewn yr adran/ardal.

Strategaeth:

- Cysylltu efo'r Pennaeth Adran/Ardal
- Trefnu fod y disgybl yn cael ei leoli efo aelod arall o'r adran/ardal.
- Cofnodi'r digwyddiad ar Bromcom, gan gynnwys esboniad ysgrifenedig o'r sefyllfa.
- Rhoi'r disgybl yn yr atalfa amser cinio.
- Pennaeth adran/ardal I gysylltu efo'r Rhiant/Gofalwr.
- Hysbysu'r Pennaeth Blwyddyn a'r Tim Bugeiliol drwy Bromcom.

<u>Camau Gweithredu 'Cyfle'</u>

Cam 5: Symud I POD

Os fod disgybl yn gwrthod cydymffurfio efo Cam 4, ag/neu os fod y disgybl yn parhau I gamymddwyn, yna fydd angen gweithredu Cam 5.

Strategaethau:

- Cysylltu efo'r Hwb Bugeiliol/POD
- Cysylltu efo'r Pennaeth Blwyddyn / Pennaeth Ymddygiad / Aelod o'r Uwch Dim Arwain
- Fydd y disgybl yn cael ei hebrwng I'r POD/Hwb, ag yn parhau o dan goruchwyliaeth, tan fod yna benderfyniad o'r gosb wedi ei gadarnhau.
- Fydd angen datganiad ysgrifenedig o'r digwyddiad wrth yr Athro cychwynnol, mor gynted a sy'n bosib.
- Fydd yna alwad i'r Rhieni/Gofalwyr I'w hysbysu am y sefyllfa.
- Pan fod disgybl yn cael ei wahardd yn fewnol am ddiwrnod cyfan yn POD/Hwb, yna fydd angen iddynt barhau efo'I gwaith Ysgol a derbyn cefnogaeth y staff Bugeiliol efo hyn.

Cam 6: Eithriad Tymor Hir / Adroddiad Tracio Ymddygiad
Pan fydd disgybl yn dechrau ar y lefel hon o gamymddwyn trwy un weithred difrifol, neu drwy osgoi'r camau gwahanol, mae'r Pennaeth Blwyddyn yn cyfrannu. Bydd y disgybl yn treulio diwrnod neu fwy yn POD. Gall unigolyn gael ei osod ar gerdyn tracio, yn gorfod cadw at set o dargedau penodol ar adroddiad monitor, gyda'r targedau'n cael eu monitro'n ddyddiol gan y Pennaeth Blwyddyn, a'r cartref.

CAM 7: Gwaharddiad
Mae hyn ar gyfer gweithredoedd difrifol sy'n torri rheolau Ysgol, neu digwyddiad sy'n peryglu unigolion. Dim ond y Pennaeth sydd a'r hawl I wahardd disgybl o'r Ysgol. (Gall y Dirprwy Bennaeth wneud hyn, yn absenoldeb y Pennaeth). Ar ol dychwelyd I'r Ysgol, rhaid I'r disgybl a'I Rhieni/Gofalwyr, fynychu cyfarfod ailintegreiddio gyda aelod o'r Tim Bugeiliol. Mae disgyblion yn cael ei gwahardd am digwyddiadau difrifol, a/neu nifer o ddigwyddiadau. Gweler yr isod am esiamplau o'r fath yma o ymddygiad (nodwch nid yw'r rhestr yma yn holl gynhwysfawr): • Ymddygiad ymosodol (gan gynnwys bwrw/cicio/gwthio) • Bwlio • Dwyn • Defnyddio iaith amhriodol tuag at aelod o Staff (ar lafar neu'n ysgrifenedig) • Ymddygiad eithafol neu peryglus (gan gynnwys peri risg at ei hun, neu eraill) • Fandaliaeth • Ysmygu ar safle'r Ysgol (gan gynnwys fapio) • Ymyrryd ar offer tan • Camddefnydd ffon symudol (gan gynnwys ffilmio amhriodol, tynnu lluniau heb ganiatad, a/neu rhannu lluniau anweddus) • Camddefnyddio gwefannau cymdeithasol. • Unrhyw ymddygiad sy'n dwyn anfri ar yr Ysgol.

Cam 8: 'Managed Move' / Lleoliad UCD
Os na all yr Ysgol rheoli ymddygiad disgybl penodol mwyach, gellir trefnu symudiad wedi'I reoli I Ysgol arall I gymryd drosodd addysg y disgybl. Mae symudiadau rheoledig yn rhoi cyfle I ddisgyblion gael 'dechrau ffres' mewn Ysgol Newydd, yn y gobaith y bydd hyn yn lleddfu'r anawsterau a brofir yn eu Ysgol bresennol.

Efallai na fydd symudiad rheoledig yn briodol I bob disgybl. Efallai y penderfynir bod lle yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn fwy priodol. Bydd hyn yn cael ei drefnu trwy'r Awdurdod Lleol.
Cam 9: Gwaharddiad Parhaol
Gall gwaharddiad parhaol fod yn gam nesaf yn dilyn croniad o droseddau disgyblu / cyfres o gwaharddiadau dros dro, neu oherwydd trosedd untro difrifol. Bydd y Corff Llywodraethol yn rhan annatod o'r broses hon. Mae'r Awdurdod Lleol / Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau angenrheidiol ar gyfer gwaharddiadau (dros dro/parhaol) ac mae'r Ysgol yn cadw at y canllawiau hyn yn llawn. Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion

Dyddiad: Tachwedd 2024

Cadeirydd y Llywodraethwyr: 

Pennaeth: 

Dyddiad Adolygu: Tachwedd 2025